OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 No. 951

# Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014

## RHAN 6

## Gorfodi

**Pŵer i arolygu ac ymafael**

**37.**—(1) Caiff arolygydd, a aeth i mewn i fangre at y dibenion o weithredu a gorfodi'r Rheoliad UE neu'r Rheoliadau hyn, wneud y canlynol at y dibenion hynny—

(a) cyflawni unrhyw archwiliad, ymchwiliad neu brawf;

(b) gwneud unrhyw ymholiadau, arsylwi ar unrhyw weithrediad neu broses, gwneud unrhyw recordiadau neu dynnu unrhyw ffotograffau;

(c) arolygu a chwilio'r fangre;

(d) cymryd samplau (a'u hanfon i'w profi mewn labordy) o unrhyw anifail, carcas neu ran o garcas;

(e) ymafael mewn unrhyw garcas neu ran o garcas, a chadw'r cyfryw ar gyfer archwilio, ymholi neu brofi ymhellach;

(f) ymafael mewn unrhyw gyfarpar neu offeryn a'i gadw ar gyfer archwilio, ymholi neu brofi ymhellach;

(g) cael mynediad i unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw gyfarpar cysylltiedig, ac arolygu a gwirio'r data sydd arnynt, a'u gweithrediad;

(h) ymafael mewn unrhyw gyfrifiaduron a chyfarpar cysylltiedig, at y diben o gopïo data; ond hynny yn unig os yw'r arolygydd yn amau'n rhesymol fod trosedd o dan y Rheoliadau hyn wedi ei chyflawni, ac ar yr amod y dychwelir y cyfrifiaduron a'r cyfarpar cysylltiedig cyn gynted ag y bo'n ymarferol;

(i) ei gwneud yn ofynnol dangos unrhyw ddogfen neu gofnod ac arolygu a gwneud copi neu echdynnu o'r cyfryw ddogfen neu gofnod; a

(j) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw berson yn darparu pa bynnag gymorth, gwybodaeth, cyfleusterau neu gyfarpar sy'n rhesymol.

(2) Rhaid i arolygydd—

(a) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddarparu i'r person sy'n ymddangos yn gyfrifol am unrhyw eitemau yr ymafaelir ynddynt gan yr arolygydd o dan baragraff (1), dderbynneb ysgrifenedig sy'n nodi'r eitemau hynny; a

(b) cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl penderfynu nad oes angen yr eitemau hynny mwyach, eu dychwelyd, ac eithrio rhai sydd i'w defnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys.

(3) Pan fo arolygydd wedi ymafael mewn eitemau o dan baragraff (1) i'w defnyddio fel tystiolaeth mewn achos llys ac yna—

(a) penderfynir yn ddiweddarach—

(i) na ddygir achos llys; neu

(ii) nad oes angen yr eitemau hynny bellach fel tystiolaeth mewn achos llys; neu

(b) cwblhawyd yr achos llys ac ni wnaed gorchymyn gan y llys mewn perthynas â’r eitemau hynny,

rhaid i’r arolygydd ddychwelyd yr eitemau cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol.